**Pwyllgor Adnoddau Dynol**
**(Cyfarfod Eithriadol)**

**10 Ebrill 2024**

**Yn Bresennol** : Mrs J James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Y Cynghorydd Dr S Hancock, Dr R Heath-Davies, Y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd R Jordan.

**Swyddogion yn bresennol**: Y Prif Weithredwr, Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 9.45am – 9.55am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr GA Jones, y Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Jordan, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hancock, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**4. Diweddariad am y Swyddogion Statudol**

Atgoffwyd yr Aelodau y penderfynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Dynol fis Hydref 2023 i gyflogi Catrin Evans yn Bennaeth Cyllid a Chodi Arian. Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y byddai Richard Griffiths, y Swyddog Adran 151 presennol, yn parhau â'r swydd honno yn barhaol, tra byddai swydd Ms Evans fel Pennaeth Cyllid a Chodi Arian yn parhau heb newid.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hancock, **penderfynwyd** bod Mr R Griffiths yn parhau yn Swyddog Adran 151 yr Awdurdod ar y telerau a nodwyd yn y cyfarfod.

Aeth y Prif Weithredwr rhagddo i roi diweddariad ar swydd yr ail Swyddog Statudol a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol, a dywedodd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd. Gan nodi'r wybodaeth honno, awgrymodd yr Aelodau bod hyn yn gyfle i drafod opsiynau ar gyfer y swydd yn y dyfodol.

**Nodwyd.**